Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

Goleuo'r gorffennol i wneud y dyfodol yn fwy diogel

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: SUSRWales@llyw.cymru

CEFNDIR

Creu proses adolygu unigol lle mae angen ymagwedd amlasiantaeth, gan gynnwys y prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

CANLLAWIAU STATUDOL ADDU

- Ar hyn o bryd, mae'r Tîm ADDU yn ystyried dyddiadau ar gyfer sesiynau ymgysylltu. Bydd hyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddarllen a rhoi adborth ar y Canllawiau Statudol ADDU.
- Mae'r tîm yn ystyried datblygu adran sy'n ystyried cysylltiad troseddwyr â'r broses ADDU.

CYNNYDD HYD YN HYN

- Mae'r Tîm ADDU wedi adolygu'r cynllun prosiect ADDU i gysoni gwaith y grwpiau Gorchwyl a Gorffen er mwyn sicrhau amserlenni cywir ar gyfer gweithredu'r ADDU.
- Mae'r Tîm ADDU yn parhau i gyfathrebu â Llywodraethau Awstralia, Seland Newydd a'r Alban.



MATERION CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

- Mae'r Tîm ADDU wrthi'n ystyried sut i weithredu gwaith o gwmpas datblygu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

DYSGU A HYFFORDDI

- Mae'r Tîm ADDU wrthi'n ystyried comisiynu datblygu deunydd Hyfforddi ADDU. Trefnir yr ymagwedd hon yn unol â'r amserlen gyffredinol ar gyfer gweithredu'r broses ADDU.

DYNLADDIAD IECHYD MEDDWL

- Mae diffiniad Dynladdiad Iechyd Meddwl yn cael ei ddatblygu gan y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn barod i'w gynnwys yn nrafft terfynol y Canllawiau Statudol ADDU.

POLISÏAU A PHROSESAU

- Mae'r templed Adroddiad ADDU wrthi'n cael ei adolygu gan y Swyddfa Gartref, ochr yn ochr â'r Canllawiau Statudol ADDU drafft.
- Mae'r pecyn offer dal yn cael ei ddiweddaru yn unol â'r Canllawiau Statudol ADDU wrth iddo ddatblygu o ganlyniad i adborth.

DYNLADDIAD ARFAU BYGYTHIOL

- Mae'r Tîm ADDU wedi darparu'r Bennod ADDU Cymru o fewn y Canllawiau Statudol Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol.
- Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Dynladdiad Arfau Bygythiol nesaf wedi'i drefnu, a bydd ymarfer pen bwrdd yn cael ei gynnal gyda'r grŵp.
- Mae'r cynlluniau peilot Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol wedi'u cadarnhau, a bydd un yn cael ei gynnal yn ardal Heddlu De Cymru.

YSTORFA DDIOGELU Cymru

- Mae'r ysgoloriaeth ymchwil wedi parhau â'u gwaith o ran datblygu fideos Hyfforddi a Chyflwyno Ystorfa Ddiogelu Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.
- Mae gwaith yn parhau tuag at Gynllun Gwaith Blwyddyn 2.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg